Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

William Powell
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21/04/16

Annwyl William,

**Deiseb P-04-655: Mynnu ein hawliau i'r Gymraeg yn y sector preifat**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 2 Mawrth ynghylch y ddeiseb uchod.

Mae eich llythyr yn gofyn fy marn ar sylwadau ychwanegol y deisebydd, yn dilyn trafodaeth o'r ddeiseb yn ystod cyfarfod y pwyllgor ar 2 Chwefror.

Yn fy llythyr atoch ar 6 Ionawr, nodais fy mod i wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer Cylchoedd 1, 2 a 3 y broses o gyflwyno safonau, ac y byddwn yn cychwyn ymchwiliadau safonau gyda darparwyr gwasanaethau trên a rheilffyrdd ar 31 Mawrth, yn ogystal â darparwyr nwy a thrydan yn ystod mis Mehefin. Gallaf gadarnhau bod ymchwiliadau safonau i ddarparwyr gwasanaethau trên a rheilffyrdd bellach wedi cychwyn ar 31 Mawrth.

Ers fy llythyr ar 6 Ionawr rwy'n falch o nodi bod 3 set bellach o reoliadau wedi eu cymeradwyo gan y Cynulliad, a fy mod wedi cychwyn ar y broses o osod safonau ar y cyrff a enwir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 trwy gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio drafft iddynt. Bydd y gwaith o osod safonau ar y cyrff a enwir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) yn cychwyn yn yr wythnosau nesaf.

Nodaf fod y deisebydd yn awgrymu 'bod dealltwriaeth anysgrifenedig rhwng y Llywodraeth â'r Comisiynydd i beidio â gweithredu'r pwerau yn y Mesur' mewn perthynas â'r sector telathrebu yn benodol. Dylid pwysleisio bod y Mesur yn gwahaniaethu rhwng swyddogaethau'r sefydliadau hyn: Rôl y Comisiynydd yw blaenoriaethu sectorau a chynnal

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ymchwiliadau safonau i'r sectorau hynny lle bo'n briodol, ac yn sgil hynny mae'r Llywodraeth yn pennu safonau mewn rheoliadau.

Rwyf eisoes wedi datgan y byddaf yn cynnal gwaith ymchwil a mapio i sectorau eraill a enwir yn y Mesur, gan barhau â'r gwaith o osod safonau ar y sefydliadau sydd eisoes wedi eu henwi mewn rheoliadau ochr yn ochr â hynny.

Hyderaf fod yr ymateb hwn o ddefnydd i'r Pwyllgor, ac yn ategu'r hyn yr wyf wedi darparu mewn gohebiaeth flaenorol.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

William Powell
Chair
Petitions Committee
National Assembly for Wales

21/04/16

Dear William,

**Petition P-04-655: Demanding our Rights for the Welsh Language in the Private Sector**

Thank you for your letter dated 2 March in relation to the above petition.

Your letter seeks my views on the petitioner's additional comments, following a discussion of the petition during the committee meeting of 2 February.

In my letter to you on 6 January, I noted that I had published a timetable for Rounds 1, 2 and 3 of the standards imposition process, and that I would be commencing standards investigations relating to railway and bus service providers on 31 March and gas and electricity providers during June. I can confirm that standards investigations relating to railway and bus service providers began on 31 March.

Since my letter of 6 January I am pleased to note that 3 further sets of regulations have been approved by the Assembly, and that I have begun the process of imposing standards on the bodies named in the Welsh Language Standards (No.2) Regulations 2016 by issuing draft compliance notices to them. The process of imposing standards on the bodies named in the Welsh Language Standards (No.4) Regulations 2016 and the Welsh Language Standards (No.5) Regulations 2016 will commence in the coming weeks.

I note that the petitioner suggests that 'there is an unwritten understanding between the Government and the Commissioner not to implement the powers in the Measure', specifically in relation to the telecommunications sector. It should be emphasised that the Measure differentiates between the functions of these organizations: The Commissioner's

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

role is to prioritise sectors and to carry out standards investigations in relation to those sectors as appropriate; the Government then prescribes standards in regulations.

I have previously stated that I will be undertaking a research and mapping exercise for other sectors named in the Measure, whilst continuing with the task of imposing standards on the organizations that have already been named in regulations in conjunction with that work.

I trust that this response will be useful to the committee, and will complement that which has been provided in previous correspondence.

Yours sincerely,

**Meri Huws**
Welsh Language Commissioner